
# 5. Asesiadau Sensitifrwydd a Chapasiti Ardaloedd Cymeriad Tirwedd

**Ardal Cymeriad Tirwedd**
Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig

**LCA1: Treffynnon**
SCA13: Penbwchdy i Benllechwen
SCA20: Dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid i'r gogledd (yn agos i'r de)

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yn ei hagoredrwydd i olygfeydd hir ar draws cribau a bryniau tonnog llyfngrwn gan gynnwys rhai i'r arfordir a'r môr, ochrau dyffryn bychain a lloriau dyffryn Cleddau Wen, Afon Solfach a Brandy Brook gyda'u llystyfiant corsiog cysylltiedig, a phentref pen bryn neilltuol Mathri. Mae'r gwerth yn gorwedd yn y rôl fel lleoliad i'r Parc Cenedlaethol i'r gogledd, y de a'r gorllewin, lleoliad Ardal Gadwraeth Mathri, henebion cofrestredig amrywiol, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Corsydd Llangloffan, ACA Afonydd Cleddau i'r dwyrain a SoDdGA fel Gwaun Ysgeifiog i'r gorllewin. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer prif ardaloedd wynebwedd y Dirwedd Hanesyddol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>- Cribau llydan isel â gorwelion agored (e.e. Bryn Manorowen) a gwrychoedd a chloddiau isel.<br>- Bryniau agored llyfngrwn fel ym Mathri.<br>- Dyffrynnoedd afon Cleddau Wen a'i llednentydd, a dyffrynnoedd bychain megis Afon Solfach a Brandy Brook gyda chors, glaswelltir corsiog a choetir cysylltiedig.<br>- Llethrau serth mewn mannau, megis yn gysylltiedig â'r dyffrynnoedd cul.<br>- Golygfeydd hir ar draws y dirwedd agored.<br>- Lleoliad y Parc Cenedlaethol a'r ardaloedd lle ceir rhyngwelededd â'r arfordir a'r môr mewn mannau (e.e. o fewn ACA13).<br>- Lleoliad pentref pen bryn Mathri a'i Ardal Gadwraeth.<br>- Ardaloedd lled-naturiol gan gynnwys dynodiadau cadwraeth natur yn nyffrynnoedd yr afon a'r tiroedd comin. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Park Farm a The Mount ger Breudeth, Torbant a Phont-y-mabws ger yr A487, ac eraill gan gynnwys Trefgarn Owen. Mae'r safleoedd hyn yn bennaf yn gymysgedd o garafanau sefydlog a theithiol. | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Mae gan yr ardal gapasiti cyfyngedig iawn yn yr ardaloedd ger y Parc Cenedlaethol, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny sy'n rhyngweladwy â'r arfordir a'r môr. Dylid osgoi unrhyw ddatblygiad sy'n cyfrannu at ddatblygiad hirgul neu effaith gronnol ar yr A487. Mae natur agored gyffredinol yr ardal yn golygu y byddai datblygiad ar dir uwch, yn enwedig gorwelion a thir goleddol yn debygol o fod yn rhy weladwy. Mae'r dyffrynnoedd bychain hefyd yn sensitif o ran gwerth cadwraeth natur a chymeriad tirwedd. Efallai y bydd cyfleoedd mewn ardaloedd cymharol wastad yn y canol gyda rhywfaint o orchudd coed neu wrych wedi gordyfu ar hyn o bryd, a/neu'n gysylltiedig â datblygu anheddiad yr 20fed ganrif. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Efallai y bydd capasiti ar gyfer safleoedd caeedig bach i ganolig i'r tir ac i ffwrdd o'r arfordir a'r Parc Cenedlaethol, a allai fod yn gysylltiedig â datblygu anheddiad yr 20fed ganrif. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Efallai y bydd rhywfaint o gapasiti ar gyfer estyn safleoedd presennol ar yr amod eu bod wedi'u cynnwys o fewn gwrychoedd a choed presennol sydd wedi tyfu'n rhy fawr. Dylid hefyd ceisio gwelliannau i'r safleoedd presennol fel rhan o hyn i gynyddu plannu a lliniaru unedau presennol. Yn ddelfrydol, dylai unrhyw estyniad fod at ddefnydd tymhorol ond gall nifer fach o garafanau sefydlog fod yn dderbyniol yn amodol ar sgrinio. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Byddai hyn yn berthnasol i un o'r meysydd carafanau i leihau dwysedd a gwelededd carafanau sefydlog presennol. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd** | Mae potensial ar gyfer rhywfaint o welliant mewn safleoedd presennol - gweler isod. | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | - Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu safle aeddfed.<br>- Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>- Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod bod caeadle.<br>- Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>- Cysylltu â chyfadeiladau fferm os oes modd, yn enwedig safleoedd bychain.<br>- Gosod mewn man sy'n ffinio â datblygiad modern/20fed ganrif. | | | | |

| | |
|---|---|
| | - Osgoi safleoedd neu warchodfeydd cadwraeth natur sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu'n lleol.<br>- Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol.<br>- Osgoi gosod unedau sefydlog mewn Ardaloedd Cadwraeth, henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau neu yn eu lleoliad. |
| **Canllawiau lliniaru** | - Lleihau dwysedd datblygiad carafanau sefydlog gan greu lle gwyrdd.<br>- Osgoi gosod carafanau sefydlog yn agos iawn at ffiniau er mwyn plannu i leddfu effeithiau.<br>- Cyfyngu carafanau sefydlog a theithiol i ymylon caeau.<br>- Cyfyngu unedau i ymylon caeau.<br>- Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i gyn lleied o ardaloedd â phosibl os oes angen.<br>- Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeiladau fferm wledig, a lliniaru effeithiau â phlanhigion lle bo hynny'n briodol.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>- Gwella mynedfeydd safle i roi cymeriad gwledig iddynt, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, rendrad wedi'i beintio, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |




white CONSULTANTS

© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344


www.whiteconsultants.co.uk

**LCA01 - Treffynnon**

PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal fach hon yn agoredrwydd ei bryniau a'i hochrau, y porfeydd corsiog isel, patrwm aneddiadau traddodiadol ar raddfa fechan, rhyngweledeedd â'r Parc Cenedlaethol a'r arfordir mewn mannau a llonyddwch. Ceir gwerth yr ardal yn yr henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig gan gynnwys eglwys Tremarchog, y berthynas â'r Parc Cenedlaethol i'r gogledd a'r gorllewin a'i llonyddwch. Mae'r gwerth LANDMAP yn eithriadol ar gyfer y brif ardal wynebwedd Weledol a Synhwyraidd, yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Hanesyddol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>- Ochrau a phennau bryniau bach gyda gorwelion agored a brigiadau creigiau e.e. Carn Gelli.<br>- Llethrau bryniau yn wynebu'r arfordir i'r gogledd a'r gorllewin a'r cefn gwlad ehangach i'r dwyrain.<br>- Porfeydd corsiog isel.<br>- Cloddiau isel sy'n ffinio â phorfeydd sy'n darparu gorchudd cyfyngedig.<br>- Lleoliad henebion cofrestredig gan gynnwys Cylch Rhos y Clegyrn a'i faen hir a hefyd siambrau claddu Ffyst Samson.<br>- Lleoliad aneddiadau bychain traddodiadol gan gynnwys Tremarchog a'i heglwys, a ffermydd traddodiadol.<br>- Perthynas â'r Parc Cenedlaethol fel lleoliad gan gynnwys edrych draw o'r Garn Fawr a Garn Gilfach.<br>- Perthynas ag ACA10: Trwyn Crincoed a Phen-caer i'r gogledd<br>- Ymdeimlad o dawelwch. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Dim | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Mae gan yr ardal gapasiti cyfyngedig iawn oherwydd ei sensitifrwydd uchel/uchel i ganolig ar y cyfan a'i hagoredrwydd a'i llonyddwch a'i pherthynas â'r Parc Cenedlaethol gyda derbynyddion sensitif cysylltiedig. Mae'n bosibl y bydd ychydig bach o gapasiti ar gyfer safleoedd tymhorol bach sy'n gysylltiedig â ffermydd ar yr amod eu bod wedi'u gosod yn ddisylw a'u sgrinio gan goed, gwrychoedd a/neu dirffurf. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Mae'n bosibl y bydd ychydig bach o gapasiti ar gyfer safleoedd tymhorol bach sy'n gysylltiedig â ffermydd ar yr amod eu bod wedi'u gosod yn ddisylw a'u sgrinio gan goed, gwrychoedd a/neu dirffurf. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd presennol** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |

| | |
|---|---|
| Canllawiau lleoli | - Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu safle aeddfed.<br>- Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>- Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod bod caeadle.<br>- Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>- Cysylltu â chyfadeiladau fferm os yn bosibl.<br>- Safle sy'n gyfagos i ddatblygiad modern.<br>- Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol. |
| Canllawiau lliniaru | - Cyfyngu unedau i ymyl caeau. |
| | - Osgoi goleuadau neu ddarparu goleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i gyn lleied o ardaloedd â phosibl os oes angen.<br>- Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeilad fferm wledig, a lliniaru effeithiau â phlanhigion lle bo hynny'n briodol.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>- Sicrhau bod gan fynedfeydd safle gymeriad gwledig, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, rendrad wedi'i beintio, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |




© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344

www.whiteconsultants.co.uk

**LCA02 - St Nicholas**

PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

**Ardal Cymeriad Tirwedd** — **LCA3: Arfordir Abergwaun**

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig — SCA7: Harbwr Abergwaun ac Wdig

SCA10: Trwyn Crincoed a Phen-caer

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yn yr Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliadau, yr harbwr a'r tir blaen arfordirol ar lefelau uchel ac isel, y llethrau arfordirol serth uwchben Wdig, y tir bugeiliol agored uwch ger Penrhiw a lleoliad y Parc Cenedlaethol, a'r dyffryn agored a'r gwlypdir rhwng y ddau anheddiad. Mae'r gwerth yn yr Ardaloedd Cadwraeth, y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, henebion cofrestredig, lleoliad y Parc Cenedlaethol i'r gogledd a'r gorllewin a golygfeydd ar hyd yr arfordir. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |

**Sensitifrwydd allweddol**

Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:

- Ardal Gadwraeth Abergwaun gyda’r cei cysylltiedig a choridor Afon Gwaun, a’r lleoliad cysylltiedig.
- Y llain arfordirol a’r gefnwlad i'r gogledd o Abergwaun
- Ardal Gadwraeth Wdig a'i lleoliad.
- Y llethrau arfordirol serth uwchben Wdig a'r harbwr gan gynnwys ardaloedd lled-naturiol.
- Y llethrau bugeiliol agored o amgylch Penrhiw gyda gwrychoedd isel, sy’n agored i olygfeydd hir ar hyd yr arfordir.
- Yr harbwr / tir blaen arfordirol rhwng aneddiadau.
- Llawr isel y dyffryn a gwlyptir Gweunydd Wdig yn gwahanu'r ddau anheddiad
- Lleoliad y Parc Cenedlaethol i'r gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain, gan gynnwys yr ardaloedd a gwmpesir gan ACA7: Harbwr Abergwaun a Wdig ac ACA10: Trwyn Crincoed a Phen-caer.
- Y llethrau agored i'r de o Nant Wdig o amgylch Fferm Cwmbrandy.
- Mannau agored cyhoeddus a choridorau, a rhai ohonynt yn gwahanu ffurf drefol. Mae llawer o'r ardal yn amhriodol i'w datblygu oherwydd y ffurf adeiledig bresennol.


| | |
|---|---|
| **Datblygiad yn yr ardal** | Fishguard Holiday Park |

| **CAPASITI** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Capasiti’r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r capasiti** | Cyfyngir ar y capasiti gan yr angen i osgoi safleoedd sy'n rhyngweladwy â'r arfordir a'r Parc Cenedlaethol a chynnal gwahaniad rhwng Abergwaun ac Wdig. Mae'r capasiti hefyd wedi'i gyfyngu gan ffurf adeiledig a'r angen i gadw'r holl fannau agored cyhoeddus, a'r mathau eraill o sensitifrwydd a ddisgrifir uchod. Efallai y bydd cyfleoedd mewn rhai lleoliadau mwy caeedig i'r tir ar lefelau is. |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Mae'n bosibl y bydd ychydig bach o gapasiti ar gyfer safleoedd bach newydd mewn lleoliadau caeedig. |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Gorwedd Fishguard Holiday Park ar ymyl yr anheddiad ar lethrau sy'n codi. Mae'r patrwm caeau i'r de (yn LCA05) yn cynnwys caeau hir gyda gwrychoedd isel ac ychydig o goed i fyny'r llethr. Mae rhywfaint o ddatblygiad tai newydd yn ymestyn i fyny'r llethr i'r de-ddwyrain. Byddai’n rhaid i unrhyw estyniad gael ei ystyried yn ofalus iawn gan y gallai fod yn weladwy iawn, effeithio'n andwyol ar batrwm y caeau a byddai angen camau lliniaru mwy sylweddol arno gan gynnwys coed a llwyni brodorol na'r safle presennol - a fyddai hefyd yn groes i gymeriad lleol. |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Ni fyddai hyn yn ddymunol gan y byddai’n estyn y ffurf drefol i gefn gwlad agored heb fawr o fudd. |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd presennol** | Mae'r datblygiad presennol o fewn yr ardal drefol ac felly nid yw camau lliniaru pellach, er eu bod yn ddymunol, yn hanfodol. Fodd bynnag, byddai unrhyw ddwysáu pellach o ddatblygiad y safle neu ostyngiad yn sgrinio’r ffiniau yn annymunol. |

| **CANLLAWIAU** | |
|---|---|
| **Canllawiau lleoli** | • Gosod i ffwrdd o’r tir blaen arfordirol.<br>• Osgoi llethrau, yn enwedig yn edrych dros yr arfordir.<br>• Osgoi gorwelion<br>• Safle sydd wedi’i amgáu gan lystyfiant neu adeiladau. |
| **Canllawiau lliniaru** | • Cynnal a gwella'r patrwm ffiniau cae gan gynnwys gwrychoedd a choed. |

| | |
|---|---|
| | Cynnal, adfer neu gynyddu tyfiant coed a gwrychoedd i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. |




white CONSULTANTS
© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344
www.whiteconsultants.co.uk

**LCA03 - Fishguard Coastal**


PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

**Ardal Cymeriad Tirwedd LCA4: Mynydd Cilciffeth**

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig -

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yn gorwedd yn y bryniau digysgod ac agored gyda'u gorwelion llyfngrwn a'u cymeriad rhostir sydd megis allgreigiau i'r Preseli ac yn ffurfio'r cefndir i'r tirweddau is cyfagos, y gweundir/rhostir agored, patrwm caeau afreolaidd ar raddfa fach, brigiadau creigiau a nodweddion hanesyddol. Mae'r gwerth yn y nodweddion hanesyddol a phresenoldeb y Parc Cenedlaethol sy'n rhedeg ar hyd ffin orllewinol yr ardal. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Gweledol a Synhwyraidd a Hanesyddol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>• Massifs Ysgubor a Mynydd Cilciffeth gyda'u llethrau agored, digysgod a gorwelion sy'n ffurfio allgreigiau'r Preseli ac sydd megis cefndir i dir isel cyfagos.<br>• Craig ddigysgod ar gopa Mynydd Cilciffeth.<br>• Nodweddir Mynydd Cilciffeth gan rostir agored a rhostir gwlyb.<br>• Tirweddau llai o gaeau rheolaidd ac afreolaidd gyda gwrychoedd a ffiniau pyst a gwifrau sy'n cyfrannu at yr agoredrwydd.<br>• Coed prin ar ardaloedd uwch.<br>• Ffermydd gwasgaredig bach a bythynnod ynysig, yn bennaf ar y llethrau isaf.<br>• Gweithgaredd defodol/angladdol cynhanesyddol ar Fynydd Cilciffeth a Mynydd Ysgubor a chyfres helaeth o nodweddion anheddiad/amaethyddol o amryw gyfnodau, mewn cyflwr da gan gynnwys yr anheddiad Oes Haearn/Brythonaidd-Rufeinig yng ngwaun Fagwr-Frân.<br>• Golygfeydd panoramig helaeth i'r llethrau ucheldirol ac ohonynt, yn enwedig o'r Preseli.<br>• Ymdeimlad o lonyddwch, yn enwedig yn yr ucheldiroedd agored.<br>• Mae rhan orllewinol yr ardal yn rhan o leoliad y Parc Cenedlaethol. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Dim | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Mae gan yr ardal gapasiti cyfyngedig iawn am fod ganddi'n gyffredinol sensitifrwydd uchel/uchel i ganolig ac agoredrwydd a llonyddwch a pherthynas â'r Parc Cenedlaethol gyda derbynyddion sensitif cysylltiedig. Mae'n bosibl y bydd ychydig bach o gapasiti ar gyfer safleoedd tymhorol bach sy'n gysylltiedig â ffermydd ar yr amod eu bod mewn lleoliad disylw ac wedi'u sgrinio gan goed, gwrychoedd a/neu dirffurf. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Mae'n bosibl y bydd ychydig bach o gapasiti ar gyfer safleoedd tymhorol bach sy'n gysylltiedig â ffermydd ar yr amod eu bod mewn lleoliad disylw ac wedi'u sgrinio gan goed, gwrychoedd a/neu dirffurf. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd presennol** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | • Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed/coedwig neu sydd o fewn safle neu'n agos i safle.<br>• Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>• Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod bod caeadle.<br>• Unedau safle sy'n agos at ymylon elfennau amgáu fel ffin cae neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>• Cysylltu â chyfadeiladau fferm os yn bosibl.<br>• Safle sy'n gyfagos i ddatblygiad modern. | | | | |

| | |
|---|---|
| | - Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol. |
| **Canllawiau lliniaru** | - Cyfyngu unedau i ymylon caeau.<br>- Osgoi goleuadau neu ddarparu goleuadau sy’n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i gyn lleied o ardaloedd â phosibl lle bo angen.<br>- Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeiladau fferm wledig, a lliniaru effeithiau â phlanhigion lle bo hynny'n briodol.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru’r effaith weledol.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>- Sicrhau bod gan fynedfeydd safle gymeriad gwledig, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlanhigion sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, rendrad wedi'i beintio, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |




© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344


www.whiteconsultants.co.uk

**LCA04 - Mynydd Cilciffeth**

PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yng ngorwelion y cribau a'r bryniau llyfngrwn a'r llethrau uchaf, ochrau dyffryn afon Cleddau, ochrau a lloriau dyffryn bychain, tirweddau llai o gaeau gan gynnwys lleiniau canoloesol, a gorchudd o laswelltir gwlyb, cors a choetir.Mae'r gwerth yn yr henebion cofrestredig, pwyntiau uchel aml, gwallau mewn diddordeb cadwraeth natur gan gynnwys ACA Afonydd Cleddau, a pherthynas yr ardal â'r Parc Cenedlaethol, gydag ardaloedd cyfagos o fewn y Parc yn edrych drosodd.Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y brif ardal wynebwedd Tirwedd Hanesyddol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | ■ | |
| **Sefydlog: canolig** | | | ■ | | |
| **Sefydlog: bach** | | | ■ | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | ■ | |
| **Tymhorol: canolig** | | | ■ | | |
| **Tymhorol: bach** | | ■ | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>• Mân gribau a bryniau llyfngrwn, a rhai ohonynt â gorwelion a llethrau uchaf agored.<br>• Ochrau dyffryn afon Cleddau.<br>Lloriau ac ochrau dyffryn bach, rhai ohonynt yn serth, gyda glaswelltir gwlyb, cors a choetir.<br>• Rhostir prysg a choetir.<br>• Tirweddau llai o gaeau rheolaidd ac afreolaidd gyda chloddiau a ffiniau pyst a gwifrau sy'n cyfrannu at yr agoredrwydd. Llain-gaeau canoloesol neu arbennig o sensitif.<br>• Ffermydd bach ar wasgar a bythynnod ynysig.<br>• Henebion cofrestredig gwasgaredig, yn aml ar fannau uchel gan gynnwys Castell Pant-y-Philip a Chwm-Wyntyll, a Flemish a Bucket Camp.<br>• Amryw adeiladau rhestredig er enghraifft Ciliauwen.<br>• Ardaloedd o ddiddordeb cadwraeth natur gan gynnwys ACA Afonydd Cleddau, SoDdGA Esgyrn Bottom a Wallis Moor.<br>• Mae rhan ddwyreiniol yr ardal yn ffurfio rhan o leoliad y Parc Cenedlaethol ym Mynydd Castlebythe a Chwm Gwaun.<br>• Lleoliad goleddol Llys-y-frân i'r dwyrain.<br>• Mae ymyl ogleddol yr ardal yn edrych dros harbwr Abergwaun ac mae wedi'i chynnwys yn | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Tregroes a Yet-y-Gors yn agos i'r A40, a Chwm Gwaun i'r dwyrain. Maent oll yn feysydd gwersylla neu deithiol. | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** ■ | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o gapasiti** | Nid oes capasiti o gwbl ar gyrion y Parc Cenedlaethol, yn enwedig Cwm Gwaun, ar loriau ac ochrau dyffryn afon Cleddau ac ar bennau bryniau a chribau agored. Prin yw'r capasiti mewn mannau eraill yn unol â'r canllawiau isod. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Efallai bod ychydig bach o gapasiti ar gyfer safleoedd canolig sy'ngysylltiedig â datblygiad yr 20fed ganrif neu safleoedd bach sy'n gysylltiedig â ffermydd ar yr amod eu bod mewn lleoliad ac wedi'u sgrinio gan goed, gwrychoedd a/neu dirffurf. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i lety safleoedd (cynyddu presennol)** | Prin yw'r cyfleoedd i estyn y safleoedd presennol yn yr ardal sydd naill ai eisoes yn fychanol neu sydd mewn lleoliad sensitif iawn (Cwm Gwaun).<br><br>Mae Fishguard Holiday Park ar gyrion yr anheddiad ar lethrau sy'n codi yn LCA03. Mae'r patrwm caeau i'r de yn LCA05 yn cynnwys caeau hir gyda chloddiau isel ac ychydig goed yn mynd i fyny'r llethr. Ceir ychydig o ddatblygiad tai newydd yn ymestyn i fyny'r llethr i'r de-ddwyrain. Byddai'n rhaid ystyried unrhyw estyniad yn ofalus iawn oherwydd gall fod yn eang weladwy, effeithio'n andwyol ar y patrwm caeau a byddai angen lliniaru mwy sylweddol arno gan gynnwys coed a llwyni brodorol na'r safle presennol- byddai hyn yn groes i gymeriad y dirwedd. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Ni fyddai hyn yn ddymunol oherwydd byddai'n estyn datblygiad i gefn gwlad agored heb fawr o fudd. | | | | |
| **Capasiti** ar gyfer **o fewn safleoedd** | Byddai lliniaru pellach gan gynnwys coed a llwyni brodorol yn ddymunol ar gyfer rhai safleoedd lle mae amlygiad i'r i olygfa. | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | • Gosod mewn ardaloedd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu safle aeddfed.<br>• Gosod o fewn ffiniau cae, heb orlifo i gaeau cyfagos. | | | | |

| | |
|---|---|
| | - Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod bod caeadle.<br>- Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>- Cysylltu â chyfadeiladau fferm os oes modd, yn enwedig safleoedd bach.<br>- Gosod wrth ymyl datblygiad modern/20fed ganrif.<br>- Osgoi safleoedd neu warchodfeydd cadwraeth natur sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu'n lleol.<br>- Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol.<br>- Osgoi gosod unedau sefydlog mewn Ardaloedd Cadwraeth, henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau neu yn lleoliadau'r rhain.<br>- Osgoi'r potensial ar gyfer datblygiad cronnus/hirgul ar yr A40. |
| **Canllawiau lliniaru** | - Osgoi gosod carafanau sefydlog yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i leddfu effeithiau.<br>- Cyfyngu carafanau sefydlog a theithiol i ymylon caeau.<br>- Cyfyngu unedau i ymylon caeau.<br>- Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i gyn lleied o ardaloedd â phosibl lle bo angen.<br>- Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeilad fferm wledig, a lliniaru effeithiau drwy blannu lle bo hynny'n briodol.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>- Gwella mynedfeydd safle i roi cymeriad gwledig iddynt, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, rendrad wedi'i beintio, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |





© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344



**LCA05 - Scleddau Lowlands**

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yn y grib gul gyda gorwel a llethrau agored a digysgod, i'w gweld yn eang i'r gogledd a'r de, ei brigiadau creigiau neilltuol ym Mynyddoedd Tre-wman a Threfgarn a'i rhostir agored. Mae gwerth yn y crugiau Oes Efydd, Rhathlan amddiffynnol, SoDdGA Mynydd Tre-wman a Nant-y-cou a'r llonyddwch sydd ar gael ar ben y grib. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Hanesyddol a Daearegol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>- Crib gul o'r dwyrain-gorllewin gyda nodweddion twr creigiog a llethrau serth mewn mannau.<br>- Gorwel a llethrau digysgod yn agored i olygfeydd i'r gogledd a'r de<br>- Rhostir agored ym Mynydd Dudwell<br>- Anheddiad cyfyngedig iawn o ffermydd gwasgaredig ac anheddau ynysig o dan y gefnen.<br>- Mae creigiau Tre-wman a Threfgarn yn dirnodau a gydnabyddir yn lleol<br>- Hawliau tramwy cyhoeddus ar hyd rhannau o'r grib a mynediad cyfyngedig i gerbydau<br>- Mae gwerth hanesyddol yn y crugiau o'r Oes Efydd, Rhathlan amddiffynnol a chwareli ôl-ganoloesol.<br>- Mae gwerth cadwraeth natur yn SoDdGA Mynydd Tre-wman ac yn Nant-y-cou.<br>- Golygfeydd i Gastell y Garn ac ohono. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Dim | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Mae gan yr ardal gapasiti cyfyngedig iawn oherwydd bod llethrau a gorwelion agored yr ardal yn golygu bod datblygiadau yn debygol o fod yn weladwy iawn dros ardal eang. Efallai y bydd datblygiad tymhorol ar raddfa fach mewn ardaloedd isel i'r gogledd yn bosibl ond byddai angen safleoedd disylw wedi'u hamgáu gan wrychoedd a choed aeddfed. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer** | Mae'r capasiti ar gyfer safleoedd newydd wedi'i gyfyngu i safleoedd bach mewn lleoliadau disylw, wedi'u | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd presennol** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | - Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu safle safle.<br>- Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>- Cysylltu â chyfadeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach.<br>- Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol. | | | | |
| **Canllawiau lliniaru yn benodol i'r Ardal Cymeriad Tirwedd** | Ddim yn berthnasol | | | | |




© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344




**LCA06 - Treffgarne and Plumstone Mountains**

## Ardal Cymeriad Tirwedd — LCA7: Pelcomb a Simpson Cross

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig — SCA21: Dyfroedd arfordirol dwyrain Sain Ffraid (cyfagos)

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yn ei chefnen a'i phennau bryniau agored, sy'n aml â chloddiau isel, rhyngwelededd rhannau o'r ardal â'r Parc Cenedlaethol a'r arfordir i'r gorllewin, y dyffrynnoedd cul sy'n rhannol goediog sy'n rhan o ddalgylch Cleddau a nodweddion treftadaeth lleoliad yr ardal.<br>Ceir gwerth yr ardal yn y berthynas â'r Parc Cenedlaethol cyfagos i'r gorllewin, ACA Afon Cleddau a SoDdGA Mynydd Tre-wman, Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberdaugleddau a henebion cofrestredig gan gynnwys Castell Keeston a'i Rathlannau. Mae gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | ■ | |
| **Sefydlog: canolig** | | | ■ | | |
| **Sefydlog: bach** | | | ■ | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | ■ | | |
| **Tymhorol: canolig** | | ■ | | | |
| **Tymhorol: bach** | ■ | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>- Cyfres o gribau dwyrain/gorllewin a llethrau bryniau llyfngrwn, a rhai ohonynt â gorwelion agored e.e. i'r gorllewin o Hwlffordd, ac o amgylch Simpson Cross a Pelcomb Cross.<br>- Dyffrynnoedd nant wedi'u torri'n ddwfn gydag ochrau serth, lloriau cul a rhywfaint o goetir.<br>- Tir uchel yn edrych dros arfordir i'r gorllewin, rhywfaint yn ffurfio'r gorwel.<br>- Ardaloedd o gloddiau sy'n ffurfio ychydig bach o orchudd/sgrin.<br>- Mae rhan o'r ardal yn ffurfio lleoliad y Parc Cenedlaethol megis o amgylch Nolton Cross a'r Garn.<br>- Patrwm caeau bach gan gynnwys llain-gaeau creiriol (e.e. Wolfsdale).<br>- Cymoedd tawel.<br>- Diddordeb cadwraeth natur gan gynnwys ACA Afon Cleddau a SoDdGA Mynydd Tre-wman.<br>- Diddordeb treftadaeth gan gynnwys Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberdaugleddau i'r gorllewin o Hwlffordd, henebion cofrestredig gan gynnwys Castell Keeston a'i Rathlannau. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Mae safleoedd i garafanau sefydlog a theithiol yn cynnwys y rhai sy'n agos at ffin y Parc Cenedlaethol i'r gorllewin megis maes gwersyll Simpson, Nolton Cross, South Cockett a Rosehill, y rhai ar hyd yr A487 gan gynnwys parc carafanau Dunster a safle The Rising Sun a gwasgariad o safleoedd bach mewn mannau eraill. | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** ■ | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Mae gan yr ardal gapasiti cyfyngedig yn yr ardaloedd ger y Parc Cenedlaethol, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny sy'n rhyngweladwy â'r arfordir a'r môr. Dylid osgoi unrhyw ddatblygiad sy'n cyfrannu at ddatblygiad hirgul neu effaith gronnol ar yr A487. Mae natur agored gyffredinol y grib a'r pennau bryniau yn golygu y byddai datblygiad ar dir uwch, yn enwedig gorwelion a thir ar lethr yn debygol o fod yn rhy weladwy. Mae'r cymoedd bach hefyd yn sensitif o ran cymeriad tirwedd a gwerth cadwraeth natur. Efallai y bydd cyfleoedd mewn ardaloedd cymharol wastad yn y canol gyda rhywfaint o orchudd presennol gan goed neu wrychoedd wedi tyfu'n rhy fawr, a/neu'n gysylltiedig â datblygiad anheddiad yr 20fed ganrif. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Efallai y bydd lle i safleoedd caeedig bach i ganolig i'r tir ac i ffwrdd o'r arfordir a'r Parc Cenedlaethol, a allai fod yn gysylltiedig â datblygiad anheddiad yn yr 20fed ganrif. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Efallai y bydd rhywfaint o gapasiti ar gyfer estyn safleoedd presennol ar yr amod eu bod wedi'u cynnwys o fewn gwrychoedd a choed presennol sydd wedi tyfu'n rhy fawr. Dylid hefyd chwilio am welliannau i'r safleoedd presennol fel rhan o hyn er mwyn cynyddu plannu a lliniaru unedau presennol. Yn ddelfrydol, dylai unrhyw estyniad fod at ddefnydd tymhorol ond gall nifer fach o garafanau sefydlog fod yn dderbyniol yn amodol ar sgrinio. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb presennol)** | Ni fyddai hyn yn ddymunol gan y byddai'n estyn y datblygiad i gefn gwlad agored heb fawr o fudd. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd** | Mae potensial ar gyfer rhywfaint o welliant mewn safleoedd presennol - gweler isod. | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |

| | |
|---|---|
| **Canllawiau lleoli** | - Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu safle safle.<br>- Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>- Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod bod caeadle.<br>- Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>- Cysylltu â chyfadeiladau fferm os oes modd, yn enwedig safleoedd bach. |




© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344

www.whiteconsultants.co.uk

**LCA07 - Pelcomb and Simpsons Cross**


PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

| | |
|---|---|
| | - Gosod wrth ymyl datblygiad modern/20fed ganrif.<br>- Osgoi safleoedd neu warchodfeydd cadwraeth natur sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu'n lleol.<br>- Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol.<br>- Osgoi lleoli unedau sefydlog o fewn henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau neu yn eu lleoliad.<br>- Osgoi unedau sefydlog yn y Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig. |
| **Canllawiau lliniaru** | - Lleihau dwysedd datblygiad carafanau sefydlog gan greu lle gwyrdd.<br>- Osgoi gosod carafanau sefydlog yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i leddfu effeithiau.<br>- Cyfyngu carafanau sefydlog a theithiol i ymylon caeau.<br>- Cyfyngu unedau i ymylon caeau.<br>- Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i ardaloedd lleiaf lle bo angen.<br>- Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeiladau fferm wledig, a lliniaru effeithiau gyda phlanhigion lle bo hynny'n briodol.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>- Gwella mynedfeydd safle i roi cymeriad gwledig iddynt, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, rendrad wedi'i beintio, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |

**Ardal Cymeriad Tirwedd** | **LCA8: Hwlffordd**

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig | SCA33: Y Ddau Gleddau

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yn yr Ardal Gadwraeth a'i lleoliad, y Priordy a'i leoliad, coridor Cleddau Wen, llawr dyffryn Merlin Brook a llethrau coediog serth a'r mannau agored a choridorau cyhoeddus. Mae'r gwerth yn yr henebion cofrestredig, Ardal Gadwraeth, Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberdaugleddau ac ACA Cleddau Wen/y Ddau Gleddau. Mae'r gwerth LANDMAP yn eithriadol ar gyfer y brif ardal wynebwedd Tirwedd Hanesyddol, y brif ardal wynebwedd Tirwedd Ddiwylliannol ac yn isel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>- Ardal Gadwraeth Hwlffordd gyda'r Castell a'r Priordy cysylltiedig a choridor afon Cleddau Wen<br>- Llawr dyffryn Merlin Brook gyda phorfa gysylltiedig wedi'i lled-wella<br>- Ochrau dyffryn serth Merlin Brook gyda choetir cysylltiedig<br>- Mannau agored a choridorau cyhoeddus, a rhai ohonynt yn gwahanu ffurf drefol.<br><br>Mae mwyafrif helaeth yr ardal yn amhriodol i'w ddatblygu oherwydd y ffurf adeiledig bresennol. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Dim | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Cyfyngir i raddau helaeth ar y capasiti gan ffurf adeiledig a'r angen i gadw'r holl fannau agored cyhoeddus, a'r sensitifrwydd a ddisgrifir uchod, gan gynnwys Cleddau Wen. Efallai y bydd ychydig bach iawn o gyfleoedd mewn rhai lleoliadau mwy caeedig i ffwrdd o'r Ardal Gadwraeth. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Mae'n bosibl y bydd ychydig bach iawn o gapasiti ar gyfer safleoedd bach newydd sy'n gysylltiedig mewn lleoliadau caeedig. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb presennol)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | - Gosod i ffwrdd o afon Cleddau Wen a'r Ardal Gadwraeth<br>- Gosod lle mae llystyfiant neu adeiladau yn amgáu'r safle.<br>- Osgoi llethrau a gorwelion agored. | | | | |
| **Canllawiau lliniaru** | - Cynnal a gwella'r patrwm ffiniau caeau gan gynnwys<br>- Cynnal, adfer neu gynyddu tyfiant coed a gwrychoedd i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. | | | | |




© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344

**LCA08 - Haverfordwest**

white CONSULTANTS

www.whiteconsultants.co.uk


PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

**Ardal Cymeriad Tirwedd LCA9: Gwastadeddau Johnston**

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal lle ceir golygfeydd agored ar draws tir fferm tonnog agored, ardaloedd â phatrymau caeau llai o faint, ochrau a lloriau dyffryn cul sy'n aml yn gysylltiedig â choetir llydanddail, a'r ardal fwy gwledig a llonydd i'r dwyrain a gysylltir yn arbennig â'r Ddau Gleddau. Mae gwerth yr ardal yn ei rôl fel rhan o leoliad y Parc Cenedlaethol i'r dwyrain, yr ardal o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd y Ddau Gleddau, Ardal Gadwraeth Llangwm, yr henebion cofrestredig sy'n gysylltiedig â Rhosfarced. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Hanesyddol, Diwylliannol a Daearegol, yn gymedrol ar gyfer Gweledol a Synhwyraidd ac yn isel ar gyfer y brif ardal wynebwedd Cynefinoedd Tirwedd. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>- Pennau ac ochrau uchaf tir ffermio tonnog agored gyda gwrychoedd wedi'u tocio a golygfeydd eang.<br>- Ardaloedd gyda phatrwm caeau llai o faint gan gynnwys llain-gaeau canoloesol.<br>- Lloriau ac ochrau dyffryn cul.<br>- Ardaloedd o goetir llydanddail, megis yng nghoridorau dyffrynnoedd.<br>- Ardaloedd gyda phatrwm aneddiadau mwy gwledig gyda phentrefi cnewyllol, ffermydd a thai ynysig.<br>- Ardaloedd tawel, i ffwrdd o brif ffyrdd, yn enwedig tuag at y dwyrain.<br>- Ardaloedd o fewn lleoliad y Parc Cenedlaethol yn arbennig o agos i'r Ddau Gleddau i'r dwyrain, a rhai ohonynt â golygfeydd ysblennydd.<br>- Ardaloedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd y Ddau Gleddau.<br>- Henebion cofrestredig Ardal Gadwraeth Llangwm a Rhosfarced gan gynnwys y Rhathlan a'u lleoliad. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Ceir ychydig o safleoedd gwasgaredig yn bennaf tuag at y de a'r dwyrain. | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | A hithau'n ardal helaeth, mae yna gapasiti ar gyfer datblygiad pellach. Fodd bynnag, dylai hwn osgoi rhyngweledded â'r Ddau Gleddau i'r dwyrain ac Aberdaugleddau i'r de gydag effeithiau cysylltiedig posibl ar y Parc Cenedlaethol a'r dirwedd o ddiddordeb hanesyddol. Ceir capasiti'r ardal mewn ardaloedd mwy gwastad naill ai mewn dyffrynnoedd esmwyth neu ar lwyfandir esmwyth gyda choed a gwrychoedd presennol sydd wedi tyfu'n rhy fawr i integreiddio'r datblygiad ac osgoi edrych drosodd. Ni anogir estyn safleoedd presennol ger y Parc Cenedlaethol nac o fewn yr ardal o ddiddordeb hanesyddol. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Ceir capasiti'r ardal mewn ardaloedd mwy gwastad naill ai mewn dyffrynnoedd esmwyth neu ar lwyfandir esmwyth gyda choed a gwrychoedd presennol sydd wedi tyfu'n rhy fawr i integreiddio'r datblygiad ac osgoi edrych drosodd. Gall safleoedd newydd fod ger coridorau prif ffyrdd drwy'r ardal ond ni ddylai datblygiadau fod yn amlwg o'r ffyrdd, ar wahân i arwyddion cynnil. Dylid gweithredu unrhyw safleoedd newydd yn unol â'r canllawiau isod. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Ni anogir estyn safleoedd presennol ger y Parc Cenedlaethol nac o fewn yr ardal o ddiddordeb hanesyddol. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb presennol)** | Nid oes angen penodol i estyn safleoedd presennol i wella eu golwg. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd presennol** | Nid oes unrhyw angen trechaf am welliannau o fewn y safleoedd presennol ond croesewir unrhyw fesurau sy'n helpu i integreiddio safleoedd o fewn y dirwedd ehangach. | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | - Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu safle safle.<br>- Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>- Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, i ffwrdd o'r arfordir a'r gorwelion, ac ar yr amod bod caeadle.<br>- Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir | | | | |

| | |
|---|---|
| | yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br> Cysylltu â chyfadeiladau fferm os oes modd, yn enwedig safleoedd bach.<br> Os ydych chi'n gosod mewn coetir, sicrhewch fod rhywfaint o’r coetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam.<br> Gosod yn agos i ddatblygiad modern.<br> Osgoi safleoedd neu warchodfeydd cadwraeth natur sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu'n lleol.<br> Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol.<br> Osgoi gosod unedau sefydlog yn y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Cofrestredig, henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig |
| **Canllawiau lliniaru** | Lleihau dwysedd datblygiad carafanau sefydlog neu gabanau gwyliau gan greu lle gwyrdd gyda choed brodorol wedi’u plannu rhwng carafanau/cabanau, yn enwedig lle mae unedau'n 'pentyrru i fyny' llethrau.<br> Osgoi gosod carafanau sefydlog yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i leddfu effeithiau.<br> Cyfyngu carafanau sefydlog a theithiol i ymylon caeau.<br> Ystyried cynlluniau unedau sefydlog sy'n llai unionlin gyda mannau a ffyrdd mynediad sy’n crymu. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rheini sy’n uniongyrchol ar bwys yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau sefydlog a defnyddio'r lle ar gyfer amwynder e.e. hamdden, chwarae, cerdded cŵn.<br> Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau’r effaith weledol.<br> Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda gan blanhigion yn y canol.<br> Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy’n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i gyn lleied o ardaloedd â phosibl lle bo angen.<br> Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeilad fferm wledig lle bo hynny'n briodol, a lliniaru effeithiau gyda phlanhigion.<br> Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br> Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru’r effaith weledol.<br> Plannu cloddiau neu wrychoedd brodorol yn lle ffensys.<br> Meddalu ymylon caled fel waliau ar hyd ffyrdd â choed.<br> Plannu gwrychoedd brodorol yn lle gwrychoedd conwydd.<br> Plannu coed brodorol collddail yn lle conwydd.<br> Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br> Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br> Gwella mynedfeydd safle er mwyn cael cymeriad gwledig, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlanhigion sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar, rendrad wedi'i beintio, gwelyau blodau unflwydd ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |





© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344
www.whiteconsultants.co.uk

**LCA09 - Johnston Lowlands**

PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yn yr ymyl arfordirol sydd eisoes wedi'i gorddatblygu'n gyffredinol ac mae angen ei chadw'n glir o ddatblygiad pellach, y llethrau i lawr i Aberdaugleddau, tirweddau agored gan gynnwys gorwelion megis o amgylch Caer Scoveston, ac ardaloedd o goetir lled-naturiol. Mae gwerth yr ardal yn ei hagosrwydd at y Parc Cenedlaethol i'r gorllewin, Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd y Ddau Gleddau sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r ardal, henebion cofrestredig yng Nghaer Scoveston, Castle Pill a Thornton Rath, Ardaloedd Cadwraeth Neyland a Honeyborough, amryw adeiladau rhestredig fel eglwysi, a Llwybr Arfordir Cymru sy'n mynd trwy'r ardal. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol, yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Weledol a Synhwyraidd a Daearegol ac yn isel ar gyfer y brif ardal wynebwedd Cynefinoedd Tirwedd. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>• Ymyl arfordirol Aberdaugleddau sydd eisoes wedi'i gorddatblygu a chyffiniau Llwybr Arfordir Cymru.<br>• Y llethrau i lawr i Ddyfrffordd y Ddau Gleddau sy'n ffurfio cefndir iddi.<br>• Tirwedd agored gyda gwrychoedd isel, megis o amgylch Castell Scoveston.<br>• Ardaloedd a choetir o lystyfiant lled-naturiol, gan gynnwys ar loriau a llethrau dyffryn i lawr i Aberdaugleddau.<br>• Patrymau caeau bychain.<br>• Gorwelion lleol agored.<br>• Lleoliad henebion cofrestredig fel Caer Scoveston, ac Ardal Gadwraeth Honeyborough.<br>• Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd y Ddau Gleddau.<br>• Y bylchau gwyrdd cyfyngedig rhwng aneddiadau a datblygiad megis purfeydd olew a storfeydd, ac yn ddiweddar ffermydd gwynt a solar, sydd eisoes yn addasu'r cymeriad gwledig ac sy'n cael effaith gronnol. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Dim | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Mae gan yr ardal gapasiti cyfyngedig yn enwedig yn yr ardaloedd hynny sy'n rhyngweladwy â dyfrffordd y Ddau Gleddau. Dylid osgoi unrhyw ddatblygiad sy'n cyfrannu at ddatblygiad hirgul neu effaith gronnol, yn enwedig yn y Dirwedd Hanesyddol. Oherwydd natur agored gyffredinol yr ardal gan gynnwys o amgylch Caer Scoveston, prin yw'r capasiti. Mae'n annhebygol y bydd yr ardal yn cael ei datblygu'n ôl o'r Ddyfrffordd oherwydd elfennau amharu fel y purfeydd olew, y ffermydd gwynt a solar, ond os cânt eu datblygu dylent ddilyn y canllawiau isod. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Mae'n annhebygol y bydd yr ardal yn cael ei datblygu'n ôl o'r Ddyfrffordd oherwydd elfennau amharu fel y purfeydd olew, y ffermydd gwynt a solar, ond os cânt eu datblygu dylent ddilyn y canllawiau isod. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd presennol** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | • Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu safle safle.<br>• Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>• Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod bod caeadle.<br>• Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir | | | | |

| | |
|---|---|
| | yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>- Gosod wrth ymyl datblygiad modern/20fed ganrif neu gyfadeiladau fferm ar gyfer safleoedd bach.<br>- Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol.<br>- Osgoi gosod unedau sefydlog mewn henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau neu yn eu lleoliadau.<br>- Osgoi unedau sefydlog yn y Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig. |
| **Canllawiau lliniaru** | - Osgoi gosod carafanau sefydlog yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i leddfu effeithiau.<br>- Cyfyngu carafanau sefydlog a theithiol i ymylon caeau.<br>- Cyfyngu unedau i ymylon caeau.<br>- Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy’n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i ardaloedd lleiaf lle bo angen.<br>- Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeiladau fferm wledig, a lliniaru effeithiau gyda phlanhigion lle bo hynny'n briodol.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru’r effaith weledol.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>- Gwella mynedfeydd safle i gael cymeriad gwledig, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlanhigion sy’n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, rendrad wedi’i beintio, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |




© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344
www.whiteconsultants.co.uk

**LCA10 - The Haven North**


PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

**Ardal Cymeriad Tirwedd** **LCA11: Cleddau Wen**

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig SCA33: Y Ddau Gleddau

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yn y gefnen i'r gogledd gan gynnwys ei gorwel, y llethrau serth o'r cribau/bryniau bach, llawr ac ochrau dyffryn Cleddau Wen ac ardaloedd lled-naturiol cysylltiedig, coridorau nentydd a'r patrwm caeau ar raddfa fach mewn mannau, a'r patrwm anheddu gwledig prin. Mae gwerth yr ardal yn y berthynas â'r Parc Cenedlaethol i'r de, Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd y Ddau Gleddau i'r dwyrain ac ACA Cleddau. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Synhwyraidd a Gweledol, Hanesyddol a Diwylliannol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>☐ Gorwel a llethrau cefnen amlwg, i'w gweld yn enwedig i'r gogledd.<br>☐ Llawr dyffryn Cleddau Wen gyda chynefinoedd lled-naturiol ac ochrau serth y dyffryn.<br>☐ Coridorau nant ar raddfa fach.<br>☐ Patrwm caeau ar raddfa fach mewn mannau.<br>☐ Mae cymeriad gwledig a phatrwm anheddu gwasgaredig yn cynnwys pentrefannau bach, ffermydd gwasgaredig gydag adeiladau fferm cysylltiedig, anheddau ynysig.<br>☐ Lleoliad y Parc Cenedlaethol i'r de.<br>☐ Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd y Ddau Gleddau o fewn rhan ddwyreiniol yr ardal.<br>☐ Llonyddwch i ffwrdd o'r A40. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Cyfyngir yn helaeth ar y capasiti gan y cymeriad gwledig tawel a'r patrwm tirffurf/afon, a'r berthynas â'r Parc Cenedlaethol, felly dim ond safleoedd tymhorol bach/canolig y dylid eu cyflawni a hynny'n unol â'r canllawiau isod. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Cyfyngir ar y capasiti gan y cymeriad gwledig tawel a'r patrwm tirffurf/afon, a'r berthynas â'r Parc Cenedlaethol, felly dim ond safleoedd tymhorol bach/canolig y dylid eu cyflawni, a hynny'n unol â'r canllawiau isod. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd presennol** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | ☐ Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu safle safle.<br>☐ Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>☐ Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod bod caeadle.<br>☐ Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>☐ Gosod yn agos i gyfadeiladau fferm ar gyfer safleoedd bach.<br>☐ Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol. | | | | |

| | |
|---|---|
| Canllawiau lliniaru | - Cyfyngu carafanau teithiol i gyrion caeau.<br>- Cyfyngu unedau i ymyl caeau.<br>- Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i gyn lleied o ardaloedd â phosibl lle bo angen. |
| | - Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeilad fferm wledig, a lliniaru effeithiau â phlanhigion lle bo hynny'n briodol.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau, gan gynnwys gwrychoedd a choed traddodiadol i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>- Rhoi cymeriad gwledig i fynedfeydd safle, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau<br>- a phlanhigion sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, rendrad wedi'i beintio, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |




white CONSULTANTS

© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344

www.whiteconsultants.co.uk

**LCA11 - Western Cleddau**


PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

**Ardal Cymeriad Tirwedd** **LCA12: Gwastadeddau'r Landsger**

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig -

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal fawr hon i'w gael yn y gefnen a'r llethrau amlwg i'r de, gorwelion a llethrau uchaf cefnennau eraill, y dyffrynnoedd rhychog a'r lloriau dyffryn cul cysylltiedig, y llystyfiant lled-naturiol a gysylltir fel arfer â'r dyffrynnoedd, y cymeriad gwledig gydag anheddu prin a llonyddwch cysylltiedig. Ceir gwerth yn Ardaloedd Cadwraeth y pentref, henebion cofrestredig amrywiol a'u lleoliad, Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd y Ddau Gleddau i'r de, ACA Afon Cleddau a'r Parc Cenedlaethol i'r de-ddwyrain. Mae'r gwerth LANDMAP yn eithriadol ar gyfer y brif ardal wynebwedd Tirwedd Hanesyddol, yn uchel ar gyfer y brif ardal wynebwedd Tirwedd Ddiwylliannol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | ■ | |
| **Sefydlog: canolig** | | | ■ | | |
| **Sefydlog: bach** | | ■ | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | ■ | | |
| **Tymhorol: canolig** | | ■ | | | |
| **Tymhorol: bach** | ■ | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>• Gorwel cefnen a llethrau amlwg i'r de, i'w gweld o'r gogledd.<br>• Cribau a phennau bryniau eraill ac ochrau uchaf bryniau neu ddyffrynnoedd gyda gwrychoedd agored/isel<br>• Lloriau dyffryn systemau Cleddau Wen a Chleddau Ddu gyda chynefinoedd lled-naturiol ac ochrau dyffryn serth.<br>• Dyffrynnoedd nentydd eraill wedi'u torri'n ddwfn gydag ochrau serth, a lloriau cul.<br>• Patrwm caeau ar raddfa fach mewn mannau gan gynnwys llain-gaeau fel yn Amblestone a Crundale.<br>• Mae cymeriad gwledig a phatrwm anheddu prin yn cynnwys pentrefi bychain, pentrefannau, ffermydd gwasgaredig gydag adeiladau fferm cysylltiedig, ac anheddau ynysig.<br>• Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd y Ddau Gleddau i'r de, lleoliadau Ardaloedd Cadwraeth yng Nghas-wis a Llanhuadain, a henebion cofrestredig a strwythurau rhestredig gan gynnwys crugiau crwn o'r Oes Efydd, nifer fawr o lociau amddiffynedig o'r Oes Haearn, cestyll cloddwaith canoloesol, adeiladau fferm a thai bonedd o'r 19eg a'r 20fed ganrif.<br>• Diddordeb cadwraeth natur gan gynnwys ACA Afon Cleddau.<br>• Lleoliad y Parc Cenedlaethol i'r de-ddwyrain i'r de o'r A40. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Safle carafanau sefydlog a theithiol yn Spittal gyda rhai safleoedd gwasgaredig llai o faint e.e. ger Llanhuadain. | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** ■ | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Fel ardal helaeth, mae yna gapasiti ar gyfer datblygiad pellach, ond ni ddylai hwn effeithio'n andwyol ar y nodweddion hanesyddol cymeriad gwledig, tawel megis Ardaloedd Cadwraeth neu ACA Afon Cleddau. Mae capasiti'r ardal i'w gael mewn ardaloedd mwy gwastad naill ai mewn dyffrynnoedd esmwyth neu ar lwyfandir esmwyth ac yno eisoes goed a gwrychoedd sydd wedi tyfu'n rhy fawr i integreiddio'r datblygiad ac osgoi edrych drosodd. Mae'r safle yn Spittal yn ddisylw ac wedi'i sgrinio'n dda a gall fod yn anodd ehangu hwn heb gynyddu gweledEdd yn y dirwedd ehangach naill ai o Gerrig Trefgarn i'r gorllewin neu i'r dirwedd agored i'r de. Gall safleoedd newydd fod ger coridor ffordd yr A40 ond dylent osgoi tynnu oddi wrth y cymeriad gwledig ar ddwy ochr y ffordd. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Ceir capasiti'r ardal mewn ardaloedd mwy gwastad naill ai mewn dyffrynnoedd esmwyth neu ar lwyfandir esmwyth gyda choed a gwrychoedd presennol sydd wedi tyfu'n rhy fawr i integreiddio'r datblygiad ac osgoi edrych drosodd. Dylid gweithredu unrhyw safleoedd newydd yn unol â'r canllawiau isod ac yn gyffredinol. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Mae'r safle yn Spittal yn ddisylw ac wedi'i sgrinio'n dda a gall fod yn anodd ehangu hwn heb gynyddu gweledEdd a chael effaith andwyol ar y dirwedd ehangach naill ai o Gerrig Trefgarn i'r gorllewin neu i'r dirwedd agored i'r de. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb presennol)** | Nid oes cyfiawnhad hollbwysig dros hyn gan nad yw'r safleoedd presennol yn rhy ddwys. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd** | Nid oes angen penodol am welliannau ar safleoedd presennol. | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | • Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu gloddiau o fewn safle aeddfed ac yn gyfagos iddo. | | | | |

| | |
|---|---|
| | - Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>- Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, i ffwrdd o orwelion, ac ar yr amod bod caeadle.<br>- Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>- Cysylltu â chyfadeiladau fferm os oes modd, yn enwedig safleoedd bach.<br>- Os ydych chi'n gosod mewn coetir neu goedwig, sicrhewch fod rhywfaint o goetir wedi'i warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed ar ffiniau a rhwng unedau gan eu hamnewid yn ôl yr angen â choed llydanddail dros amser gan adfywio/ailblannu fesul cam.<br>- Gosod ger datblygiad modern, neu ar gyfer safleoedd llai, cysylltu â ffermydd. Dylid osgoi safleoedd neu warchodfeydd cadwraeth natur sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu'n lleol.<br>- Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol.<br>- Osgoi gosod unedau sefydlog yn lleoliad Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Cofrestredig, henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau. |
| **Canllawiau lliniaru** | - Osgoi gosod carafanau sefydlog yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i leddfu effeithiau.<br>- Cyfyngu carafanau sefydlog a theithiol i ymylon caeau.<br>- Ystyried cynlluniau unedau sefydlog sy'n llai unionlin gyda ffyrdd mynediad a mannau sy'n crymu.<br>- Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg, ystyried cael gwared ar unedau sefydlog a defnyddio'r lle ar gyfer amwynder e.e. hamdden, chwarae, cerdded cŵn.<br>- Defnyddio carafanau sefydlog gydag arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, i leihau'r effaith weledol.<br>- Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda gan blanhigion yn y canol.<br>- Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i ardaloedd lleiaf lle bo angen.<br>- Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeilad fferm wledig lle bo hynny'n briodol, a lliniaru effeithiau gyda phlanhigion.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br>- Plannu cloddiau neu wrychoedd brodorol yn lle ffensys.<br>- Meddalu ymylon caled fel waliau ar hyd ffyrdd â choed.<br>- Plannu gwrychoedd brodorol yn lle gwrychoedd conwydd.<br>- Plannu coed brodorol collddail yn lle conwydd.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. |




© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344

www.whiteconsultants.co.uk

**LCA12 - Landsker Lowlands**

PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

## Ardal Cymeriad Tirwedd LCA13: Llandudoch

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig SCA1: Aber Afon Teifi

| **SENSITIFRWYDD** | |
|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal i'w gael yn y forfa heli, yr ymyl a'r llethrau i lawr i aber afon Teifi gyda golygfeydd ysblennydd cysylltiedig, Llwybr Arfordir Cymru, llethrau serth i'r prif ddyffryn a dyffrynnoedd llednentydd, gorchudd coetir llydanddail, natur agored rhannau gorllewinol a deheuol yr ardal gyda golygfeydd ehangach a chymeriad a lleoliad hanesyddol Llandudoch a'i habaty. Mae gwerth yr ardal yn ei rôl fel rhan o leoliad y Parc Cenedlaethol, y dirwedd hanesyddol gofrestredig, Ardal Gadwraeth Llandudoch a'r Abaty fel heneb gofrestredig ac ACA a SoDdGA Teifi. Mae'r gwerth LANDMAP yn eithriadol ar gyfer y brif ardal wynebwedd Tirwedd Ddiwylliannol, yn uchel ar gyfer y brif ardal wynebwedd Tirwedd Hanesyddol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. |

| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |

**Sensitifrwydd allweddol**

Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:

- Y forfa heli a'r twyni, ymyl y dŵr, a'r llethrau i lawr at aber afon Teifi gyda golygfeydd ysblennydd cysylltiedig ac ymdeimlad cryf o le.
- Llethrau serth i'r prif ddyffryn a dyffrynnoedd llednentydd
- Patrwm caeau afreolaidd ar raddfa fach mewn mannau.
- Coetir llydanddail, yn enwedig ar lethrau.
- Cymeriad ffermio agored, tonnog, digysgod rhan helaeth o'r dirwedd i'r de a'r gorllewin gyda chloddiau isel sy'n caniatáu golygfeydd hir i'r aber neu'r tu hwnt, ac i'r Preseli.
- Patrwm anheddu gwledig prin ffermydd a thai ynysig i ffwrdd o Landudoch.
- Gorwedd hanner gogleddol yr ardal o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Teifi Isaf.
- Ardal Gadwraeth Llandudoch a heneb gofrestredig yr Abaty a'u lleoliad.
- Henebion cofrestredig eraill gan gynnwys crug crwn.
- ACA a SoDdGA Teifi.
- Ceir golygfeydd allweddol heb eu difetha o Lwybr Arfordir Cymru ar hyd yr ymyl ogleddol ac o fewn y Parc Cenedlaethol, o Draeth Poppit, a hefyd o Fynydd Carningli ac o forwyr hamdden ar Afon Teifi.
- Lleoliad y rhan ogleddol o fewn SCA 1 Dyffryn Teifi.
- Mae gwerth yr ardal yn gorwedd yn ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur a grybwyllir uchod.

| | |
|---|---|
| **Datblygiad yn yr ardal** | Un maes carafanau a gwersylla bach heb unrhyw dystiolaeth ei fod yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. |


| **CAPASITI** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r capasiti** | Nid oes capasiti ar gyfer safleoedd cyfagos i aber afon Teifi, nac yn rhyngweladwy â'r aber, a'r Llwybr Arfordir Cymru cysylltiedig oherwydd dylid cadw cymeriad yr ardal hon. Mae'n bosibl y bydd ychydig bach iawn o gyfleoedd ar gyfer safleoedd llai o faint i ffwrdd o'r aber gan osgoi'r llethrau uwch a'r lleoliadau sydd i'w gweld yn eang, ac yn gysylltiedig ag anheddiad presennol yn unol â'r canllawiau isod. |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Mae'n bosibl y bydd ychydig bach iawn o gyfleoedd ar gyfer safleoedd llai o faint i ffwrdd o'r aber gan osgoi'r llethrau uwch a'r lleoliadau sydd i'w gweld yn eang, ac yn gysylltiedig ag anheddiad presennol yn unol â'r canllawiau isod. |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb presennol)** | Ddim yn berthnasol |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd** | Ddim yn berthnasol |
| **CANLLAWIAU** | |

**Canllawiau lleoli**

- Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu gloddiau o fewn safle aeddfed ac yn gyfagos iddo.
- Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.

| | |
|---|---|
| | - Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, i ffwrdd o'r arfordir a'r gorwelion, ac ar yr amod bod caeadle.<br>- Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>- Cysylltu â chyfadeiladau fferm os oes modd.<br>- Os ydych chi'n gosod mewn coetir, sicrhewch fod rhywfaint o'r coetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed ar ffiniau a rhwng unedau gan amnewid yn ôl yr angen drwy adfywio/ailblannu fesul cam.<br>- Osgoi safleoedd neu warchodfeydd cadwraeth natur sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu'n lleol.<br>- Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol.<br>- Osgoi gosod unedau sefydlog yn y dirwedd hanesyddol gofrestredig neu yn lleoliad Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Cofrestredig, henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau. |
| **Canllawiau lliniaru** | - Osgoi gosod carafanau sefydlog yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i leddfu effeithiau.<br>- Cyfyngu carafanau sefydlog a theithiol i ymylon caeau.<br>- Ystyried cynlluniau unedau sefydlog sy'n llai unionlin gyda ffyrdd mynediad a mannau sy'n crymu. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rheini sy'n uniongyrchol ar bwys yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau sefydlog a defnyddio'r lle ar gyfer amwynder e.e. hamdden, chwarae, cerdded cŵn.<br>- Defnyddio carafanau sefydlog gydag arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, i leihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda gan blanhigion yn y canol.<br>- Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i ardaloedd lleiaf lle bo angen.<br>- Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeilad fferm wledig lle bo hynny'n briodol, a lliniaru effeithiau gyda phlanhigion.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br>- Plannu cloddiau neu wrychoedd brodorol yn lle ffensys.<br>- Meddalu ymylon caled fel waliau ar hyd ffyrdd â choed.<br>- Plannu gwrychoedd brodorol yn lle gwrychoedd conwydd.<br>- Plannu coed brodorol collddail yn lle conwydd.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>- Dylunio mynedfeydd safle i gael cymeriad gwledig, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlanhigion sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar, rendrad wedi'i beintio, gwelyau blodau unflwydd ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |





© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344



**LCA13 - St Dogmaels**

| | |
|---|---|
| | - Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr, coetiroedd a ffiniau caeau ac ati. |

| SENSITIFRWYDD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Crynodeb o sensitifrwydd | Mae tueddiad yr ardal yn gorwedd yn ei dyffrynnoedd tawel, cul gydag ochrau coediog serth a chyrsiau dŵr dolennog, yr anheddiad gwledig traddodiadol a chyfyngedig iawn, y nodweddion hanesyddol a'r diddordeb cadwraeth natur yng nghoridorau'r afon, sydd i gyd yn cyfrannu at ymdeimlad cryf o le. Mae'r gwerth yn gorwedd yn y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, yr henebion cofrestredig a SAC a SoDdGA Afon Teifi. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer pob prif ardal wynebwedd ar wahân i'r brif ardal wynebwedd Tirwedd Ddaearegol. | | | | |
| Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad | Isel | Canolig/isel | Canolig | Uchel/canolig | Uchel |
| Sefydlog: mawr | | | | | |
| Sefydlog: canolig | | | | | |
| Sefydlog: bach | | | | | |
| Tymhorol: mawr | | | | | |
| Tymhorol: canolig | | | | | |
| Tymhorol: bach | | | | | |
| Sensitifrwydd allweddol | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>- Dyffrynnoedd dolennog, cymharol gul ag ochrau serth<br>- Gorchudd tir coetir llydanddail ar ochrau a gwaelodion y dyffrynnoedd.<br>- Porfa arw wlyb ar raddfa fach, fel arfer yng ngwaelodion y dyffrynnoedd.<br>- Anheddiad gwledig cyfyngedig iawn o fewn yr ardal<br>- Gwerth a chymeriad llinellol neilltuol Cilgerran gyda chastell cysylltiedig.<br>- Gwerth Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Teifi Isaf, tra bod yr ardal ehangach yn gyforiog o gofnodion cynhanesyddol a chanoloesol ac ôl-ganoloesol gan gynnwys Parciau a Gerddi Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, a Henebion Cofrestredig.<br>- Gwerth SAC a SoDdGA sy'n gysylltiedig ag Afon Teifi a'i llednentydd, a rhan o ganolfan bywyd gwyllt Cilgerran yn yr ardal.<br>- Llonyddwch mewn dyffrynnoedd caeedig. | | | | |
| Datblygiad yn yr ardal | Safle glampio dwysedd isel Fforest gyda phebyll crymdo/tipis/strwythurau ger Cilgerran | | | | |
| CAPASITI | | | | | |
| Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach | Sylweddol | Sylweddol/ Cymedrol | Cymedrol | Cyfyngedig | |
| Crynodeb o'r capasiti | Yr unig ardal a allai fod ag ychydig bach o gapasiti ychwanegol yw'r ardal i'r gogledd-orllewin o Gilgerran lle mae datblygiad presennol Fforest. Fodd bynnag, cyfyngir ar hyn gan y lle sydd ar gael a'r angen i gadw cymeriad a phrofiad y safle dwysedd isel hwn a ddyluniwyd yn ofalus. Mewn mannau eraill, mae gan yr ardal gapasiti cyfyngedig iawn, os o gwbl, oherwydd y sensitifrwydd cyson uchel i ddatblygiad ac am fod y llonyddwch a'r ymdeimlad o le yn agored i newid gyda lloriau'r dyffryn cul wedi'u hamgáu gan ochrau dyffryn coediog serth sy'n caniatáu bron dim cyfleoedd ar gyfer safleoedd disylw. | | | | |
| Capasiti ar gyfer | Cyfyngedig iawn - i wersylla tymhorol ar raddfa fach yn unig. | | | | |
| Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety) | Mae'n bosibl bod ychydig bach iawn o botensial gan Fforest i ehangu ar yr amod bod y model dwysedd isel presennol yn cael ei ddefnyddio, gan sicrhau nad oes unrhyw weledd pellach o goridor yr afon na'r fynedfa i'r ganolfan bywyd gwyllt. | | | | |
| Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety) | Gweler uchod. | | | | |
| Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd | Efallai y bydd potensial am newid cyfyngedig o fewn Fforest ar yr amod bod yr egwyddorion dylunio a'r model dwysedd isel yn drech. | | | | |
| CANLLAWIAU | | | | | |
| Canllawiau lleoli | - Cyfyngu<br>- Unedau<br>- Mynediad ar laswellt, nid traciau ag arwyneb, ar wahân i'r brif fynedfa.<br>- Gosod unedau fel nad ydynt i'w gweld o goridor yr afon, o fynedfa'r ganolfan bywyd gwyllt ac o hawliau tramwy cyhoeddus eraill.<br>- Cynnal mynedfa led-wledig, ddisylw, ddiffwdan i'r safle | | | | |
| Canllawiau lliniaru | - Lleihau<br>- Cynnal,<br>a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i'r safle os oes angen.<br>- Plannu neu adfywio mwy o goed a llwyni brodorol o fewn y safle i ymrannu'r datblygiad.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos i gynnal a gwella sgrinio. | | | | |




© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344

www.whiteconsultants.co.uk

**LCA14 - Afon Cych & Afon Taf Wooded Valleys**


PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

## Ardal Cymeriad Tirwedd LCA15: Boncath

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yng ngorwelion a llethrau agored uchel Frenni Fawr a Frenni Fach, lleoliad Mynyddoedd y Preseli i'r de-orllewin ac afon Teifi i'r gogledd, yr ardaloedd o gloddiau agored sy'n caniatáu golygfeydd eang, a phatrymau caeau ac aneddiadau gwledig ar raddfa fechan. Mae'r gwerth yn y Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol i'r gogledd a'r de, yr amrywiaeth o henebion cofrestredig sy'n aml yn gysylltiedig â thir uwch ac Ardal Gadwraeth Eglwyswrw. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y brif ardal wynebwedd Tirwedd Ddiwylliannol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>□ Gorwelion a llethrau agored uchel Frenni Fawr a Frenni Fach.<br>□ Llethrau amgrwm agored mewn lleoliadau eraill.<br>□ Ardaloedd o laswelltir heb ei wella ac wedi'i led-wella a rhostir sych.<br>□ Patrwm caeau ar raddfa fechan mewn mannau.<br>□ Cloddiau agored neu wrychoedd wedi'u tocio sy'n cynnig golygfeydd agored mewn mannau.<br>□ Y patrwm anheddu gwledig ar raddfa fechan mewn mannau.<br>□ Lleoliad Mynyddoedd y Preseli i'r de-orllewin a golygfeydd cysylltiedig i'r bryniau ac oddi yno.<br>□ Lleoliad afon Teifi a'r coridor afon cysylltiedig.<br>□ Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Teifi Isaf a Mynydd Preseli i'r gogledd a'r de yn y drefn honno.<br>□ Henebion angladdol a defodol cynhanesyddol, strwythurau a safleoedd ôl-ganoloesol, a rhan o'r parciau a'r gerddi sy'n gysylltiedig â'r plastai bonedd yn Ffynnone a Chilwendeg.<br>□ Ardal Gadwraeth Eglwyswrw a'i lleoliad. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Safleoedd bach tymhorol i'r de o Lechryd ac i'r de-orllewin o Eglwyswrw a safleoedd bach mewn mannau eraill, wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal. | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Efallai y bydd cyfleoedd gan yr ardal helaeth hon mewn ardaloedd gwastad o laswelltir heb ei wella o fewn coed neu wrychoedd aeddfed nad yw'r Preseli a'u hallgreigiau'n edrych drostynt, ac yn agos at anheddiad modern. Efallai y bydd modd estyn safleoedd presennol yn unol â'r canllawiau a nodir isod er mai'r safleoedd sy'n agos at y Parc Cenedlaethol yw'r lleiaf priodol i'w hestyn. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Efallai y bydd cyfleoedd gan yr ardal helaeth hon mewn ardaloedd gwastad o laswelltir heb ei wella o fewn coed neu wrychoedd aeddfed nad yw'r Preseli a'u hallgreigiau'n edrych drostynt, ac yn agos at anheddiad modern. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Efallai y bydd modd estyn safleoedd presennol yn unol â'r canllawiau a nodir isod er mai'r safleoedd sy'n agos at y Parc Cenedlaethol yw'r lleiaf priodol i'w hestyn. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Nid oes unrhyw angen trechaf i estyn safleoedd er mwyn lliniaru'r effaith bresennol. Mae'n bwysicach cadw'r safleoedd presennol o fewn ffiniau presennol. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd presennol** | Gan eu bod yn safleoedd tymhorol, prin yw'r cwmpas ar gyfer gwelliannau, ond byddai caniatáu i wrychoedd ffiniol dyfu i uchder cynyddol ac annog coed ar ffiniau yn ddymunol, yn enwedig lle edrychir drostynt. | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | □ Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu safle safle.<br>□ Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>□ Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, i ffwrdd o orwelion, ac ar yr amod bod caeadle.<br>□ Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>□ Cysylltu â chyfadeiladau fferm os oes modd, yn enwedig safleoedd bach.<br>□ Osgoi lleoli mewn coetir.<br>□ Gosod ger datblygiad modern, neu ar gyfer safleoedd llai, cysylltu â ffermydd. | | | | |

| | |
|---|---|
| | • Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol.<br>• Osgoi gosod unedau sefydlog yn y Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig neu yn lleoliad yr Ardal Gadwraeth, henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau. |
| **Canllawiau lliniaru** | • Osgoi gosod carafanau sefydlog yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i leddfu effeithiau.<br>• Cyfyngu carafanau sefydlog a theithiol i ymylon caeau.<br>• Ystyried cynlluniau unedau sefydlog sy'n llai unionlin gyda ffyrdd mynediad a mannau sy'n crymu.<br>• Defnyddio carafanau sefydlog gydag arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, i leihau'r effaith weledol.<br>• Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda gan blanhigion yn y canol.<br>• Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i gyn lleied o ardaloedd â phosibl lle bo angen.<br>• Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeilad fferm wledig lle bo hynny'n briodol, a lliniaru effeithiau gyda phlanhigion.<br>• Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>• Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br>• Plannu cloddiau neu wrychoedd brodorol yn lle ffensys.<br>• Meddalu ymylon caled fel waliau ar hyd ffyrdd â choed.<br>• Plannu gwrychoedd brodorol yn lle gwrychoedd conwydd.<br>• Plannu coed brodorol collddail yn lle conwydd.<br>• Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>• Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. |




white CONSULTANTS

© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344

www.whiteconsultants.co.uk

**LCA15 - Boncath**


PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

## Ardal Cymeriad Tirwedd LCA16: De Aberdaugleddau Datblygedig

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig SCA32: Aberdaugleddau Mewnol

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad Penfro yn gorwedd yn y castell a'r Ardal Gadwraeth a'u lleoliad, Afon Penfro a'i lleoliad a mannau agored a choridorau cyhoeddus. Mae tueddiad Doc Penfro yn yr hen iard longau frenhinol a'r Ardal Gadwraeth gysylltiedig, Aberdaugleddau a dyfrffyrdd cysylltiedig a'u lleoliad, natur agored gorwelion a llethrau penrhyn Pennar a mannau agored a choridorau cyhoeddus. Mae'r gwerth i'w gael yn yr henebion cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, ACA/SoDdGA Aberdaugleddau a golygfeydd ysblennydd ar hyd Aberdaugleddau. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel neu'n eithriadol ar gyfer y brif ardal wynebwedd Tirwedd Hanesyddol, yn uchel ar gyfer y brif ardal wynebwedd Tirwedd Ddaearegol, yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Gweledol a Synhwyraidd ac yn isel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | ■ |
| **Sefydlog: canolig** | | | | ■ | |
| **Sefydlog: bach** | | ■ | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | ■ | | |
| **Tymhorol: canolig** | | ■ | | | |
| **Tymhorol: bach** | ■ | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>**Penfro:**<br>□ Ardal Gadwraeth Castell Penfro a'r dref hanesyddol gysylltiedig a'u lleoliad i'r gorllewin.<br>□ Golygfeydd o Gastell Penfro.<br>□ Fflatiau llaid a lleoliad Afon Penfro.<br>□ Y mannau agored a choridorau cyhoeddus.<br>**Doc Penfro:**<br>□ Ardal Gadwraeth Doc Penfro.<br>□ Llethrau agored yn disgyn i lawr i Aberdaugleddau i'r gogledd a'r gorllewin, ac yn ffinio ag Afon Penfro, a rhai ohonynt yn serth.<br>□ Y gorwel ym Mhennar.<br>□ Mannau agored a choridorau cyhoeddus.<br><br>Mae llawer o'r ardal yn amhriodol i'w datblygu oherwydd y ffurf adeiledig bresennol. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Dim | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | **Penfro:**<br>Cyfyngir yn helaeth ar y capasiti gan ffurf adeiledig a'r angen i gadw'r holl fannau agored cyhoeddus, a'r sensitifrwydd a ddisgrifir uchod. Mae'n annhebygol y bydd cyfle yn yr ardal.<br>**Doc Penfro:**<br>Cyfyngir ar y capasiti gan ffurf adeiledig a'r angen i gadw'r holl fannau agored cyhoeddus, a'r sensitifrwydd a ddisgrifir uchod, gan gynnwys gorwel a llethrau agored penrhyn Pennar. Efallai y bydd cyfleoedd mewn rhai lleoliadau mwy caeedig nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar leoliad Aberdaugleddau. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Efallai mai cyfyngedig iawn fydd y capasiti ar gyfer safleoedd newydd bach sy'n gysylltiedig â'r ffurf adeiledig mewn lleoliadau caeedig. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | □ Gosod i ffwrdd o Aberdaugleddau a thir blaen Afon Penfro<br>□ Gosod lle mae llystyfiant neu adeiladau yn amgáu'r safle.<br>□ Osgoi llethrau a gorwelion agored. | | | | |
| **Canllawiau lliniaru** | □ Cynnal a gwella'r patrwm ffiniau caeau gan gynnwys gwrychoedd a choed. | | | | |

| | |
|---|---|
| | - Cynnal, adfer neu gynyddu tyfiant coed a gwrychoedd i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. |




white CONSULTANTS

© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344

www.whiteconsultants.co.uk

**LCA16 - Southern Haven Developed**


PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

## Ardal Cymeriad Tirwedd LCA17: Ucheldir Mynydd Preseli

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig -

| SENSITIFRWYDD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal yn gorwedd yn nhirwedd y bryniau agored gyda chloddiau isel a gorwelion lleol y mae Mynyddoedd y Preseli'n edrych drostynt, y dyffrynnoedd rhychog bach gyda llystyfiant prysg a choedwig cysylltiedig, patrwm caeau ar raddfa fach, lleoliad Llys-y-frân gan gynnwys llethrau serth a phatrwm anheddu gwledig gwasgaredig. Mae'r gwerth i'w gael yn ei pherthynas â'r Parc Cenedlaethol i'r gogledd, henebion cofrestredig, SAC Afon Cleddau ac yn ei llonyddwch. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Synhwyraidd a Gweledol a Hanesyddol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | ■ |
| **Sefydlog: canolig** | | | | ■ | |
| **Sefydlog: bach** | | | | ■ | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | ■ | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | ■ | |
| **Tymhorol: bach** | | | ■ | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>- Bryniau â llethrau uchaf agored a chopaon llyfngrwn yn ffurfio gorwelion lleol.<br>- Dyffrynnoedd rhychog yn draenio i Gleddau Ddu gyda llystyfiant lled-naturiol gan gynnwys coetir a phrysgwydd.<br>- Caeau gyda chloddiau a gwrychoedd isel, sy'n creu tirwedd gymharol agored mewn mannau.<br>- Patrymau caeau ar raddfa fechan gyda rhai llain-gaeau canoloesol creiriol mewn mannau.<br>- Patrwm anheddu gwledig gwasgaredig o bentrefannau hanesyddol, ffermydd a thai anghysbell.<br>- Golygfeydd agored i'r Preseli ac oddi yno - mae'r ardal hon yn rhan o leoliad deheuol Mynyddoedd y Preseli.<br>- Cyffiniau a lleoliad Llys-y-frân gan gynnwys llethrau serth cysylltiedig.<br>- Ardal dawel, yn enwedig i ffwrdd o'r B4329.<br>- Meini hirion, safleoedd amddiffyn a lloc cynhanesyddol a thwmpath castell canoloesol, ac amddiffynfa mwnt a'u lleoliadau.<br>- Diddordeb cadwraeth natur gan gynnwys ACA Afon Cleddau.<br>- Llystyfiant lled-naturiol fel yng Nghomin Castlebythe a thir comin cyfagos | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Dim | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** ■ | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Mae capasiti'r ardal yn gyfyngedig oherwydd natur agored yr ardal a'i rhyngweledEdd â'r Preseli a'i rôl yn cyfrannu at ei lleoliad. Dim ond safleoedd tymhorol ar raddfa fach a allai fod yn briodol. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Ychydig iawn o gyfleoedd sydd ar gyfer safleoedd newydd yn enwedig yn rhan ogleddol yr ardal ar lethrau mwy serth ger Llys-y-frân i'r de ac ar y dirwedd fryniog o amgylch y Mot i'r de. Dylai unrhyw safleoedd newydd fod ar raddfa fach ac yn dymhorol a dilyn y canllawiau a nodir isod. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd presennol** | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |
| **Canllawiau lleoli** | - Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu safle safle.<br>- Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>- Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod bod caeadle ac y cwtogir ar edrych drosodd o'r Preseli.<br>- Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>- Cysylltu â chyfadeiladau fferm os yn bosibl.<br>- Gosod yn gyfagos i ddatblygiad modern. | | | | |

| | |
|---|---|
| | - Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol. |
| **Canllawiau lliniaru** | - Cyfyngu unedau i ymylon caeau.<br>- Osgoi goleuadau neu ddarparu goleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i gyn lleied o ardaloedd â phosibl lle bo angen.<br>- Cynllunio'n ofalus olwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeilad fferm wledig, a lliniaru effeithiau â phlanhigion lle bo hynny'n briodol.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>- Sicrhau bod gan fynedfeydd safle gymeriad gwledig, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlanhigion sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, rendrad wedi'i beintio, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |




© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344
www.whiteconsultants.co.uk

**LCA17 - Mynydd Preseli Uplands**


PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

## Ardal Cymeriad Tirwedd LCA18: Dyffrynoedd Cleddau Ddu

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig -

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal fawr hon yn gorwedd yn y cefnennau agored a chul, eu gorwelion a'u llethrau uchaf, y dyffrynnoedd a'r lloriau bach cul sydd â chysylltiad â llystyfiant coridor yr afon, Llys-y-frân a'i safle, a'r patrwm caeau ar raddfa fach mewn mannau. Mae gwerth i'w gael yn Ardal Gadwraeth y Mot, amrywiol henebion cofrestredig a'u lleoliad, Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Mynydd Preseli i'r gogledd-ddwyrain, ACA Afon Cleddau, Llwybr Beicio'r Landsger, a'r Parc Cenedlaethol i'r gogledd-ddwyrain. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Synhwyraidd a Gweledol a Hanesyddol ac yn gymedrol ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd eraill. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>• Y cribau mwy agored, yn enwedig gyda phennau culion, gyda'u gorwelion a llethrau uchaf cysylltiedig.<br>• Dyffrynnoedd afon bach cul sy'n ffurfio rhan o system Cleddau Ddu gyda lloriau dyffryn cul cysylltiedig, coridorau afon a choetir lled-naturiol.<br>• Llys-y-frân a'i amgylchoedd a'i leoliad.<br>• Patrwm caeau ar raddfa fach mewn mannau.<br>• Y potensial ar gyfer datblygiad hirgul/datblygiad cronnus ar goridor yr A478.<br>• Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Mynydd Preseli i'r gogledd-ddwyrain.<br>• Llociau cynhanesyddol, mwnt a beili, caer a beili cynhanesyddol ac eglwysi ac aneddiadau o darddiad canoloesol.<br>• Diddordeb cadwraeth natur gan gynnwys ACA Afon Cleddau.<br>• Lleoliad y Preseli/Parc Cenedlaethol i'r gogledd, yn enwedig i'r gogledd-orllewin.<br>• Llwybr Beicio'r Landsger<br>• Llonyddwch i ffwrdd o'r A478. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Safleoedd carafanau sefydlog ar yr A478- i'r gogledd ac i'r de o Landysilio, parc carafanau teithiol Gower Villa, Clunderwen, safleoedd carafanau sefydlog oddi ar y B4313 i'r gogledd o'r Gelli, ac ambell safle gwasgaredig bach mewn mannau eraill. | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | |
| **Crynodeb o'r capasiti** | Mae rhywfaint o gapasiti yn yr ardal ond dylai osgoi'r tirweddau crib a dyffryn cul yn yr ardal ac osgoi effeithio'n andwyol ar y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol i'r gogledd sy'n ffinio â'r Parc Cenedlaethol. Efallai y bydd capasiti posibl i'r de a'r de-ddwyrain ond mae angen i'r ail un hefyd osgoi datblygiad cronnus/hirgul ar yr A478 gan fod y safleoedd presennol ar yr A478 yn amlwg ynghyd â datblygiadau adeiledig eraill ar hyd y ffordd. Mae'r safleoedd i'r gogledd o'r Gelli, gan mwyaf, yn ddisylw iawn o fewn y dirwedd a dylai hyn aros felly. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Efallai y bydd capasiti posibl i'r de a'r de-ddwyrain ond mae angen i'r ail un hefyd osgoi datblygiad cronnus/hirgul ar yr A478. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Gall fod yn anodd ehangu'r safleoedd ar yr A478 neu'n agos ato, heb gynyddu gwelededd ac effaith andwyol ar y dirwedd ehangach heb blannu coed a gwrychoedd brodorol ymlaen llaw. Mae safleoedd y B4313 i ffwrdd o'r ffordd yn ddisylw iawn a gall fod cyfle cyfyngedig iawn i ehangu ond byddai angen sicrhau bod golygfeydd o'r ffordd a Llwybr Landsger yn cael eu hosgoi. Ni ellid ehangu'r safle wrth ymyl y ffordd heb effeithiau negyddol sylweddol. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)** | Nid oes cyfiawnhad trechaf dros hyn gan y byddai effaith debygol ehangu yn drech na'r enillion posibl. Yr unig safle lle gallai hyn fod yn wir yw safle i'r gogledd o Landysilio a fyddai'n elwa'n fawr iawn ar blannu coed a gwrychoedd brodorol ychwanegol i wella'r fynedfa a'r ffiniau ac ymrannu crynswth y safle. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd presennol** | Mae'r safle i'r de o Landysilio wedi plannu gwrych conwydd newydd yn lle gwrych conwydd uchel a oedd wedi tyfu'n rhy fawr. Nid yw hyn yn welliant ac mae'n parhau i fod yn groes i gymeriad y dirwedd gyfagos. Dylai gwrych brodorol gyda choed fod wedi cael ei blannu. Byddai'r safle i'r gogledd o Landysilio yn elwa'n fawr iawn ar blannu coed a gwrychoedd brodorol ychwanegol i wella'r fynedfa a'r ffiniau ac ymrannu crynswth y safle. Mae hefyd wedi rendro wal a arferai fod wedi'i gorchuddio â cherrig yn y blaen. Er nad yw'r naill na'r llall mewn cymeriad, mae'r wal wedi'i rendro'n fwy maestrefol ei golwg ac yn amharu mwy ar gymeriad y ffordd a'r ardal. Buasai gwelliant mwy cynnil i'r wal yn unol â'r cymeriad gwledig yn ddymunol. | | | | |
| **CANLLAWIAU** | | | | | |

| | |
|---|---|
| **Canllawiau lleoli** | • Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn safle ac yn gyfagos iddo.<br>• Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>• Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, i ffwrdd o orwelion, ac ar yr amod bod caeadle.<br>• Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>• Cysylltu â chyfadeiladau fferm os oes modd, yn enwedig safleoedd bach.<br>• Osgoi gosod mewn coedwig.<br>• Gosod ger datblygiad modern, neu ar gyfer safleoedd llai, cysylltu â ffermydd.<br>• Osgoi safleoedd neu warchodfeydd cadwraeth natur sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu'n lleol.<br>• Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol. Dylid osgoi gosod unedau sefydlog yn y Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig neu yn lleoliad yr Ardal Gadwraeth, henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau. |
| **Canllawiau lliniaru** | • Osgoi gosod carafanau sefydlog yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i leddfu effeithiau.<br>• Cyfyngu carafanau sefydlog a theithiol i ymylon caeau.<br>• Ystyried cynlluniau unedau sefydlog sy'n llai unionlin gyda ffyrdd mynediad a mannau sy'n crymu.<br>• Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg, ystyried cael gwared ar unedau sefydlog a defnyddio'r lle ar gyfer amwynder e.e. hamdden man agored, chwarae, cerdded cŵn.<br>• Defnyddio carafanau sefydlog gydag arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, i leihau'r effaith weledol.<br>• Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda gan blanhigion yn y canol.<br>• Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i ardaloedd lleiaf lle bo angen.<br>• Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeilad fferm wledig lle bo hynny'n briodol, a lliniaru effeithiau gyda phlanhigion.<br>• Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>• Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br>• Plannu cloddiau neu wrychoedd brodorol yn lle ffensys.<br>• Meddalu ymylon caled fel waliau ar hyd ffyrdd â choed.<br>• Plannu gwrychoedd brodorol yn lle gwrychoedd conwydd.<br>• Plannu coed brodorol collddail yn lle conwydd.<br>• Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>• Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>• Gwella mynedfeydd safle er mwyn cael cymeriad gwledig, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlanhigion sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar, rendrad wedi'i beintio, gwelyau blodau unflwydd ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |




© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344

www.whiteconsultants.co.uk

**LCA18 - Eastern Cleddau Valleys**


PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment

**Ardal Cymeriad Tirwedd LCA19: Arberth a Bro Llanbedr**

Ardal Cymeriad Morwedd Gysylltiedig SCA40: Gorllewin Bae Caerfyrddin

| **SENSITIFRWYDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o sensitifrwydd** | Mae tueddiad yr ardal helaeth hon i'w gael yn ei phennau a llethrau dyffryn serth yn agos at yr arfordir, pennau a llethrau uchaf y cribau lle mae gwrychoedd isel, y lloriau dyffryn syml a chyflawn agored, ardaloedd tawel i ffwrdd o brif linellau cyfathrebu. Dylid osgoi datblygiad cronnus hefyd ger yr arfordir, ar hyd rhai ffyrdd, megis yr A477, ac o gwmpas Arberth, er mwyn cynnal cymeriad gwledig yr ardal yn ei hanfod. Mae gwerth yr ardal i'w gael yn ei rôl fel rhan o leoliad y Parc Cenedlaethol ar hyd yr arfordir a'r Ddau Gleddau, Ardal Gadwraeth Arberth, henebion angladdol a defodol cynhanesyddol, caerau o'r Oes Haearn, cestyll ac eglwysi canoloesol a choridorau'r afonydd sy'n cysylltu â'r Ddau Gleddau. Mae'r gwerth LANDMAP yn uchel ar gyfer y prif ardaloedd wynebwedd Tirwedd Hanesyddol a Thirwedd Ddiwylliannol ac yn gymedrol ar gyfer pob prif ardal wynebwedd arall. | | | | |
| **Sensitifrwydd i fathau ddatblygiad** | **Isel** | **Canolig/isel** | **Canolig** | **Uchel/canolig** | **Uchel** |
| **Sefydlog: mawr** | | | | | |
| **Sefydlog: canolig** | | | | | |
| **Sefydlog: bach** | | | | | |
| **Tymhorol: mawr** | | | | | |
| **Tymhorol: canolig** | | | | | |
| **Tymhorol: bach** | | | | | |
| **Sensitifrwydd allweddol** | Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad:<br>- Cribau sy'n mynd o'r dwyrain i'r gorllewin gyda gorwelion agored a llethrau uwch digysgod gyda gwrychoedd isel fel i'r gorllewin o Dafarn Ysbyty.<br>- Lloriau ac ochrau dyffryn agored, syml a chyflawn fel Bro Llanbedr.<br>- Pennau, llethrau ac ochrau dyffrynnoedd sy'n wynebu'r arfordir.<br>- Llethrau serth, yn enwedig ger yr arfordir.<br>- Ochrau dyffrynnoedd o goed llydanddail.<br>- Llain-gaeau canoloesol creiriol gan gynnwys Cold Blow, Tredeml a Thafarn Ysbyty.<br>- Lleoliad y Parc Cenedlaethol ar yr arfordir a'r Ddau Gleddau.<br>- Safle henebion angladdol a defodol cynhanesyddol, caerau o'r Oes Haearn, cestyll ac eglwysi canoloesol.<br>- Safle Ardal Gadwraeth Arberth.<br>- Ardaloedd tawel, yn enwedig yn agos at y Ddau Gleddau i'r gorllewin i ffwrdd o Oakwood.<br>- Ar y prif ddynesfeydd i'r sir a'r cyrchfannau arfordirol - y potensial ar gyfer datblygiad cronnus yn difetha'r dirwedd wledig yn ei hanfod. | | | | |
| **Datblygiad yn yr ardal** | Safleoedd yng nghylch Pleasant Valley a Summerhill yn agos i'r arfordir, coridor yr A477 gan gynnwys Little Kings Park, cyffiniau Tafarn Ysbyty, cyffiniau Arberth e.e. Noble Court a Brookside Caravan Park/Castlewood Lodges, safleoedd ynysig fel Grondre, ger Clunderwen a Redford ger Princes Gate. | | | | |
| **CAPASITI** | | | | | |
| **Capasiti'r Ardal datblygiad neu ddatblygiad/unedau pellach** | **Sylweddol** | **Sylweddol/ Cymedrol** | **Cymedrol** | **Cyfyngedig** | **Dim capasiti/ Wedi cyrraedd** |
| **Crynodeb o'r capasiti** | A hithau'n ardal helaeth, mae yna gapasiti ar gyfer datblygiad pellach. Fodd bynnag, mae rhannau eisoes wedi cyrraedd capasiti llawn gan gynnwys Pleasant Valley, Summerhill a'r ardaloedd cyfagos yn agos at yr arfordir a'r Parc Cenedlaethol, ac o amgylch Arberth. Mae capasiti'r ardal i'w gael i ffwrdd o'r arfordir mewn ardaloedd mwy gwastad naill ai mewn dyffrynnoedd esmwyth neu ar lwyfandir esmwyth gyda choed a gwrychoedd presennol sydd wedi tyfu'n rhy fawr i integreiddio'r datblygiad ac osgoi edrych drosodd. Mae'n debygol y bydd safleoedd newydd neu'r safleoedd estynedig yn agos at goridorau prif ffyrdd drwy'r ardal ond ni ddylai datblygiad fod yn amlwg o'r ffyrdd, ar wahân i arwyddion | | | | |
| **Capasiti ar gyfer safleoedd newydd** | Mae capasiti'r ardal i'w gael i ffwrdd o'r arfordir mewn ardaloedd mwy gwastad naill ai mewn dyffrynnoedd esmwyth neu ar lwyfandir esmwyth gyda choed a gwrychoedd presennol sydd wedi tyfu'n rhy fawr i integreiddio'r datblygiad ac osgoi edrych drosodd. Mae safleoedd newydd yn debygol o fod ger coridorau prif ffyrdd drwy'r ardal ond ni ddylai datblygiad fod yn amlwg o'r ffyrdd, ar wahân i arwyddion cynnil. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)** | Prin iawn yw'r capasiti, os o gwbl, i estyn safleoedd ymhellach o fewn ac yng nghylch Pleasant Valley, Summerhill a'r ardaloedd cyfagos ger yr arfordir. Mae hyn er mwyn gwarchod lleoliad y Parc Cenedlaethol a golygfeydd i'r arfordir ac oddi yno. Prin iawn yw'r capasiti, os o gwbl, i estyn safleoedd ymhellach yng nghylch Arberth, am fod nifer o safleoedd presennol eisoes wedi ehangu'n sylweddol ac yn mentro erydu a difetha cyffiniau gwledig yr anheddiad gan gynnwys yr Ardal Gadwraeth. Efallai y bydd potensial i ehangu safleoedd mewn mannau eraill ond nid lle byddai datblygiadau newydd yn gorlifo i ardaloedd mwy agored megis ar lethrau mwy serth neu gyda phrinder sgrinio presennol neu'n uwch na gorwelion. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb presennol)** | Nid oes cyfiawnhad trechaf dros hyn er bod rhai safleoedd wedi'u llenwi'n ddwys ag unedau ac y gellid eu gwella o ran cynllun a lliniaru. Mae'n bwysicach cyfyngu ar faint y safleoedd presennol a sicrhau nad ydynt yn ehangu y tu hwnt i'w ffiniau presennol. | | | | |
| **Capasiti ar gyfer o fewn y safleoedd** | Mae lle i welliannau ar safleoedd. Gellir ystyried podiau neu bebyll glampio yn hytrach na charafanau sefydlog lle gellir arddangos gwelliannau yn y cynllun yn unol â chanllawiau'r ddogfen hon a gostyngiad | | | | |

| | |
|---|---|
| | yn yr effaith weledol. |
| **CANLLAWIAU** | |
| **Canllawiau lleoli** | - Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn safle ac yn gyfagos i safle.<br>- Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos.<br>- Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, i ffwrdd o'r arfordir a'r gorwelion, ac ar yr amod bod caeadle.<br>- Gosod unedau'n agos at ymylon elfennau amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu leoedd.<br>- Cysylltu â chyfadeiladau fferm os oes modd, yn enwedig safleoedd bach.<br>- Os ydych chi'n gosod mewn coetir, sicrhewch fod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam.<br>- Gosod yn gyfagos i ddatblygiad modern.<br>- Osgoi safleoedd neu warchodfeydd cadwraeth natur sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol neu'n lleol.<br>- Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol.<br>- Osgoi gosod unedau sefydlog mewn Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Cofrestredig, henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau, neu yn safle'r rhain. |
| **Canllawiau lliniaru** | · Lleihau dwysedd datblygiad carafanau sefydlog neu gabanau gwyliau gan greu lle gwyrdd drwy blannu coed brodorol rhwng carafanau/cabanau, yn enwedig lle mae unedau'n 'pentyrru i fyny' llethrau.<br>- Osgoi gosod carafanau sefydlog yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i leddfu effeithiau.<br>- Cyfyngu carafanau sefydlog a theithiol i ymyl caeau.<br>- Ystyried cynlluniau unedau sefydlog sy'n llai unionlin gyda ffyrdd mynediad a mannau sy'n crymu.<br>- Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rheini sy'n uniongyrchol ar bwys yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau sefydlog a defnyddio'r lle ar gyfer amwynder e.e. hamdden man agored, chwarae, cerdded cŵn.<br>- Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda gan blanhigion yn y canol.<br>- Cynnal neu newid goleuadau i oleuadau sy'n wynebu i lawr a goleuadau lefel isel i gyn lleied o ardaloedd â phosibl os oes angen.<br>- Gwella golwg cyfleusterau'r safle e.e. i roi golwg cyfadeilad fferm wledig, lle bo hynny'n briodol, a lliniaru effeithiau â phlanhigion.<br>- Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau'r caeau gan gynnwys gwrychoedd traddodiadol, cloddiau a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.<br>- Plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i ymrannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br>- Plannu cloddiau neu wrychoedd brodorol yn lle'r ffensys.<br>- Meddalu ymylon caled fel waliau ar hyd ffyrdd â choed.<br>- Plannu gwrychoedd brodorol yn lle'r gwrychoedd conwydd.<br>- Plannu coed brodorol collddail yn lle'r conwydd.<br>- Cadw plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos a chynnal a gwella sgrinio.<br>- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.<br>- Gwella mynedfeydd safle er mwyn cael cymeriad gwledig, gan ddefnyddio manylion gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar, rendrad wedi'i beintio, gwelyau blodau unflwydd ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled. |




white CONSULTANTS

© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344

www.whiteconsultants.co.uk

**LCA19 - Narberth and Lampeter Vale**

PCC caravan, camping and chalet landscape capacity assessment